# 2021-22 ADRODDIAD BLYNYDDOL



## Cryfhau'r Celfyddydau Perfformio yng Nghymru

Creu Cymru

# Hello! / Shwmae!

Helo a chroeso i'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22.

Roedd ail flwyddyn y Pandemig yn hynod heriol i'n sector, ond parhaodd y theatrau, y gweithwyr llawrydd a'r cwmnïau cynhyrchu ledled Cymru i gyflwyno, cynhyrchu a chreu gwaith rhagorol a chefnogi eu cymunedau lleol.

Yn Creu Cymru fe wnaethom bopeth o fewn ein gallu i gefnogi cymuned y celfyddydau perfformio i gwrdd â heriau Covid-19 ac i ymateb i anghenion aelodau.

Rwy'n ddiolchgar i'r aelodau a adnewyddodd eu haelodaeth eleni ac i'r rhai sydd wedi ymuno â ni. Fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan aelodau, rydw i bob amser yn agored i adborth a syniadau ar sut y gallwn wella eich cynnig aelodaeth, felly cysylltwch â ni.

Diolch i Yvonne, Megan a'r holl staff llawrydd rydyn ni wedi gweithio gyda nhw eleni.
Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill yn y blynyddoedd i ddod. Rydw i'n edrych ymlaen at weithio gyda chi ar y prosiectau hyn, a'ch cefnogi chi i gyd i wella'r sector celfyddydau perfformio yng Nghymru.

Louise Miles-Payne
Cyfarwyddwr



Mae’r flwyddyn dan sylw wedi parhau i gynnig her i’r sector yr ydym yn ei gefnogi yng Nghymru.

Mae adeiladu'n ôl o'r pandemig yn parhau i fod yn anodd, gyda mwyafrif y cynulleidfaoedd heb gyrraedd niferoedd cyn-bandemig, draen talent amlwg yn digwydd i ddiwydiannau eraill, a staff craidd llawer o leoliadau perfformiad byw a chwmnïau dan straen. Yn ogystal â hyn mae pryder ac effaith gynyddol yr argyfwng costau byw yn amlygu’i hun, a’r potensial i wariant gynyddu, ac incwm i leihau. Mae’r heriau hyn yn rhai go iawn ac yn cynnig risg difrifol i’n sector gwerthfawr yng Nghymru.

Mae Creu Cymru yn parhau i gefnogi ei aelodau mewn cymaint o ffyrdd â phosibl. Amlygir hyn yn aml mewn rhaglenni hyfforddi a grwpiau trafod yn seiliedig ar anghenion a cheisiadau gan aelodau, ac fel ymddiriedolwyr mae’n galonogol bod Louise a’i thîm yn parhau i gynnig cefnogaeth o ansawdd uchel i’r celfyddydau perfformio yng Nghymru.

Yn dilyn proses newid Creu Cymru a ddogfennwyd yn flaenorol, dyma’r flwyddyn ariannol gyntaf i’n model aelodaeth newydd gael ei roi ar waith. Rydym yn falch, o ystyried y cefndir heriol, bod aelodau lleoliadau wedi bod mor gefnogol i’r newid yn y polisi prisio yr oedd gwir angen amdano i sicrhau model ariannol addas i’r diben, a bod agor ein haelodaeth y tu hwnt i leoliadau yn unig ac i gwmnïau cynhyrchu ac unigolion, wedi bod mor llwyddiannus.

Rwy’n hyderus am ddyfodol Creu Cymru, ac yn credu, ar ôl cael cymorth strategol gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gyflawni ein rhaglen newid sylweddol, ac ochr yn ochr â llwyddiant HYNT - sydd bellach yn cael ei fodelu ar gyfer darpariaeth ledled y DU oherwydd ei lwyddiant yng Nghymru - ein bod bellach wedi dod yn sefydliad hynod berthnasol, a ystyrir yn werthfawr ac o bwys: un sy’n cynnig eiriolaeth a chymorth lefel uchel i’r sector yng Nghymru.





Liam Evans-Ford
Cadeirydd

# Pwy ydyn ni?

Mae Creu Cymru yn hyrwyddo sector celfyddydau perfformio bywiog yng Nghymru; gan gysylltu pobl, cynulleidfaoedd a chymunedau.

Mae ein haelodau yn ffurfio rhwydwaith cydweithredol; gyda llais cryfach ac unedig er mwyn cyflwyno ac eiriol gerbron cyrff llywodraethu cyhoeddus, gan sicrhau cynrychiolaeth hanfodol yn y diwydiant a dylanwadu ar newid cadarnhaol.

Mae Creu Cymru yn cefnogi lleoliadau, cwmnïau ac unigolion mewn strategaethau twf blaengar. Mae ein cyfleoedd 'Mynd a Gweld', hyfforddiant arbenigol ac adnoddau cymorth yn datblygu sgiliau a phrofiad ein gweithlu creadigol ar y cyd. Mae hyn yn sicrhau bod rhaglenni ar draws y sector yn parhau i esblygu gan ganolbwyntio ar gydraddoldeb, perthnasedd a chynhwysiant i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol



**Ein Gweledigaeth** / Bod yn rhwydwaith bywiog a blaenllaw o weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau perfformio ar draws Cymru. Bydd y rhwydwaith hwn yn datblygu ac yn hyrwyddo gwerth a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd y celfyddydau i gymunedau drwy gysylltu pobl, hyrwyddo syniadau, tyfu arweinyddiaeth a thrwy ddatblygu aelodaeth amrywiol ac ymroddedig.

**Ein Pwrpas** / Anelwn at wireddu ein gweledigaeth drwy ganolbwyntio ar dri maes allweddol:

**Hyrwyddo**

Ein nod yw cyfleu gwerth y celfyddydau perfformio yng Nghymru. Rydyn ni'n adnabod y prif faterion sy'n effeithio ar ein haelodau gan osod yr agenda i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn annibynnol yn ogystal â thrwy weithredu ar y cyd â chynghreiriaid strategol. Rydyn ni'n cynrychioli gwerth ein haelodau ac yn hyrwyddo'r gwerth y maent yn ei gyfrannu at lesiant cymunedau a hunaniaeth ddiwylliannol.

- Adeiladu'r rhwydwaith a meithrin cyd-barch, gan ddatblygu arfer gorau ar gyfer cyflwyno'r celfyddydau perfformio.
- Hyrwyddo ac arddangos y celfyddydau perfformio yng Nghymru.
- Bod yn awdurdod gwerthfawr ac uchel ei barch ar gyfer y sector celfyddydau perfformio sy'n derbyn cymhorthdal.
- Darparu profiadau artistig rhagorol a chefnogi aelodau i fod yn fusnesau, gan gyfrannu'n sylweddol at yr economi.

**Cysylltu**

Rydyn ni'n cysylltu gwneuthurwyr a chyflwynwyr perfformiadau i greu cyd-ddealltwriaeth, effaith dorfol a chanlyniadau cydfuddiol sy'n cefnogi ac yn ymestyn cyrhaeddiad gweithgarwch yn y celfyddydau perfformio a'u gallu i deithio.

- Hybu arloesedd yn y diwydiant, gyda modelau busnes sy'n galluogi pobl i gymryd risgiau artistig.
- Bod yn awdurdod gwerthfawr ac uchel ei barch ar gyfer y sector celfyddydau perfformio sy'n derbyn cymhorthdal.
- Bod yn sefydliad cryf a chynaliadwy.

**Esblygu**

Rydyn ni'n datblygu cynlluniau i gyfoethogi sgiliau a phrofiad y gweithlu presennol a galluogi'r rheini sy'n newydd i'r sector i adnabod llwybrau i'r diwydiant. Anelwn at wella cydraddoldeb ac amrywiaeth y sector i ddatblygu ystod eang a chynrychioladol o gynhyrchwyr cynnwys a chynhyrchu gwaith sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol.

- Gweithio gydag aelodau i roi ymdeimlad o le i gynulleidfaoedd, gan groesawu pawb beth bynnag fo'u hiaith, eu cefndir neu eu treftadaeth.
- Gweithio gydag aelodau i gynyddu'r effaith gymdeithasol a chydlyniant cymunedol drwy ehangder eu gweithgareddau a dyfnder eu hymgysylltiad.
- Darparu lleoedd diogel i artistiaid a chwmnïau ffynnu, gan annog a chefnogi artistiaid i ddatblygu ac arbrofi.
- Cefnogi aelodau i fod yn amgylcheddau amrywiol a bywiog sy'n adlewyrchu eu cynulleidfaoedd yng nghyfansoddiad y staff.

# CYFLAWNWYD YN 2021/22

**75%**

**O DWF MEWN AELODAETH**

Rydyn ni wedi mynd o 4 aelod i 73 aelod

# CYFARFODYDD A DIGWYDDIADAU

Yn dilyn o'r gweithgorau a grëwyd yn ystod y Pandemig fe wnaethom adolygu ein cyfarfodydd gan edrych ar reoleidd-dra, pynciau, ac a fyddai'n digwydd ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Disgrifiadau Cyfarfodydd
Technegol / Gweithrediadau (ddwywaith y flwyddyn, ar-lein)
Er mwyn rhannu arfer gorau, datblygiadau diweddaraf yn y sector, gallai fod â phynciau thema fel gweithdrefnau Covid-saff neu gynaliadwyedd.

Cynhadledd (unwaith y flwyddyn, yn bersonol)
Digwyddiad rhwydweithio a diddorol i gysylltu aelodau a thrafod pynciau o ddiddordeb.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (unwaith y flwyddyn, ar-lein)
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i adrodd ar gynnydd y sefydliad a phleidleisio ar faterion fel ymddiriedolwyr.

Marchnata a Chyfathrebu (ddwywaith y flwyddyn, ar-lein)
Er mwyn rhannu arfer gorau, datblygiadau diweddaraf yn y sector, gallai fod â phynciau thema fel croesawu cynulleidfaoedd yn ôl ar ôl Covid neu ymgyrchoedd marchnata ar y cyd.

Cyfarfod lleoliad (ddwywaith y flwyddyn, ar-lein)
I drafod materion penodol i leoliad a allai fod wedi codi o gyfarfodydd rhwydweithio eraill, neu drwy drafodaethau cyffredinol. Rhannu gwaith posibl i'w raglennu, i'w deithio neu i'w weld.

Cyfarfod cynhyrchwyr (ddwywaith y flwyddyn, ar-lein)
I drafod materion penodol i gynhyrchwyr a allai fod wedi codi o gyfarfodydd rhwydweithio eraill neu drwy drafodaethau cyffredinol.

Cyfarfodydd Rhwydweithio Rhanbarthol (un cyfarfod fesul rhanbarth, yn dechrau ar-lein a symud i wyneb yn wyneb)
I adeiladu ar waith Consortiwm Gogledd Cymru trwy agor i'r rhanbarthau eraill.
Gogledd Cymru
Gorllewin / Canolbarth Cymru
De Cymru
Gweithio gydag aelodau rhanbarthol ar fentrau a rhannu ar y cyd.

Symposiwm Hynt (unwaith y flwyddyn, yn bersonol)
Rhannu arfer gorau ar gyfer aelodau lleoliadau Hynt, gan glywed gan arbenigwyr, aelodau, a'r rhai sydd â phrofiad personol.
Cyfarfod aelodau (unwaith y flwyddyn, ar-lein)
Cyflwyniad i aelodau newydd a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Fe wnaethom hefyd gynnal rhai cyfarfodydd ad hoc mewn ymateb i amgylchiadau newidiol o amgylch Pandemig Covid-19. Mae'r rhain yn cynnwys briffio aelodau ac ymgynghoriadau.

Daeth 237 aelod i 22 cyfarfod.

Rydyn ni wedi cynnal pum caffi yn seiliedig ar bynciau'r Contract Diwylliannol – Y Potensial i Dyfu, Amrywiaeth yn y Gweithlu a'r Bwrdd, Cyflog Teg, Cynnydd wrth Leihau Ôl-troed Carbon a Hyrwyddo Iechyd. Fe wnaethon ni wahodd arbenigwyr ym mhob un o'r meysydd i siarad ac ateb cwestiynau. Roedd y rhain yn cynnwys Inc Arts, Shelter Cymru, Creative Freedom, Museum Detox, Stonewall Cymru, Anabledd Cymru, Culture&, Chwarae Teg, TUC Cymru, Jerwood Arts, Cynnal Cymru, Theatres Trust, Julie's Bicycle, Prifysgol Bangor, Backstage Niche, NTW, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Indigo a Brixton House.

# EIRIOLAETH

Rydyn ni wedi rhoi cyflwyniad yng Nghynhadledd AMA, From Access to Inclusion a Beth Nesaf? Cymru.

Rydyn ni wedi cynrychioli aelodau mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru, yn arbennig yng nghyswllt rheoliadau a chyfyngiadau Covid. Arweiniodd hyn at:

- Newid o fod yn ddiwydiant digwyddiadau i adloniant, a oedd yn golygu bod gan theatrau fwy o gapasiti gan eu bod yn yr un categori â sinemâu.
- Egluro'r canllawiau
- Trosglwyddo gwybodaeth yn uniongyrchol o Lywodraeth Cymru i'r aelodau
- Dosbarthu canllawiau
- Lobïo am ragor o gymorth ariannol
- Ymgynghori ar strategaeth newydd Digwyddiadau Cymru

Roedden ni hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol fel rhan o'i ymchwiliad undydd i'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.
Rydyn ni wedi mynychu cyfarfodydd bwrdd crwn gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar y Theatr ac mae Louise yn aelod o'r UK Theatre Board
Ymunodd Hynt â:
Y Gynghrair Mynediad i Gynulleidfaoedd
Ymunodd Hynt â'r Gynghrair Mynediad i Gynulleidfaoedd, sef grŵp traws-sector o 13 o fudiadau / rhwydweithiau ledled y DU a dau Hyrwyddwr Sector cefnogol.

# Y WASG

Mae ein staff, ein bwrdd a'n haelodau wedi cael eu cyfweld am faterion sy'n wynebu'r sector ac yn seiliedig ar ymgyrchoedd rydyn ni wedi'u creu.
Rydyn ni wedi cael sylw yn y Western Mail, WM Magazine, BBC One Wales News, ITV Wales News, The Stage, Arts Professional, S4C, Golwg, BBC Radio Wales Arts Show a Breakfast Show, Arts Scene in Wales a Get the Chance

# HYFFORDDIANT

Rydyn ni wedi darparu hyfforddiant i aelodau ac eraill, gan gynnwys Arweinwyr Cydnerth, Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, Ymarfer Adferol, Rhagfarn Ddiarwybod, Cymhorthfa ar Bolisïau a Chynghreirio yn y Gweithle.

# HYNT

Ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, mae Creu Cymru hefyd yn rheoli “Hynt”, cynllun mynediad cerdyn cenedlaethol CCC sy’n cefnogi datblygiad hygyrchedd ac arfer celfyddydau cynhwysol ar gyfer cynulleidfaoedd ledled Cymru.

Mae yna 22,157 o aelodau Hynt a 40 o leoliadau Hynt - yr aelod lleoliad diweddaraf yw Arena Abertawe.

Rhestr Wirio Ailagor Hygyrch

Ym mis Mehefin 2021 lansiodd Hynt, gyda’r Gynghrair Mynediad Cynulleidfa, y Rhestr Wirio Ailagor Hygyrch. Cynlluniwyd hon i fod yn rhestr wirio ymarferol ar gyfer sefydliadau traws-sector i sicrhau bod cynlluniau ailagor ar ôl cloi:

- yn croesawu pawb yn ôl
- yn rhoi gwybodaeth i bobl gynllunio eu hymweliadau
- yn ystyried hygyrchedd ym mhob cam o wneud penderfyniadau.

Cysylltu a Ffynnu: Torri'r Blwch

Roedd Hynt yn rhan o brosiect, Torri’r Blwch, y bu Cwmni Theatr Taking Flight yn brif ymgeisydd arno ac a gefnogwyd gan gronfa arloesol Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Nod Torri’r Blwch yw datblygu rhwydwaith o leoliadau cynhwysol, hygyrch yng Nghymru sy’n hyderus ac yn cael eu cefnogi wrth groesawu artistiaid amrywiol, criw cefn llwyfan a gweinyddwyr, yn ogystal â chynulleidfaoedd. Mae'r prosiect yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i weithlu theatr byddar ac anabl sy'n dod i'r amlwg. Gan nodi meincnod ar gyfer Cymru o ran lle’r ydym arni o ran arfer cynhwysol a mynediad, bydd y prosiect hwn yn ail-ddychmygu’r gweithlu creadigol.

Roedd tri pherson creadigol Gyrfa Gynnar yn llwyddiannus yn dilyn cyfweliad, gyda phawb a ymgeisiodd yn cael cynnig dosbarthiadau meistr. Emily Rose, artist byddar Cymreig a Mason-Lima Jones, artist tecstilau ôl-raddedig, y ddau o Gaerdydd, ac Amy Warrington, awdur byddar o Gaernarfon.

Partneriaid y Prosiect: Cwmni Theatr Taking Flight, Disability Arts Cymru, Hynt, Theatrau Sir Gaerfyrddin, Theatrau RhCT a Pontio.

# HYNT

**Symposiwm**

Cynhaliwyd symposiwm Hynt ar-lein ym mis Tachwedd.

Y siaradwyr yn Symposiwm Hynt: Act 1 oedd:

·Andrew Ogun, Asiant dros Newid, Cyngor Celfyddydau Cymru

·Ben Pettit-Wade, Cyfarwyddwr Artistig, Hijinx

Roedd Symposiwm Hynt: Act 2 yn gyfres o sesiynau fideo a recordiwyd ymlaen llaw yn cynnwys:

·Richie Turner yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith Ehangu Ymgysylltu diweddar

·Jacob Adams o Attitude is Everything yn ein diweddaru ar eu prosiectau cyfredol.

·Tafsila Kahn yn siarad am ei gwasanaethau drwy Ymgynghoriaeth Blindspot gan gynnwys hyfforddiant a Sain Ddisgrifio.

·Rhoddodd Osian Gwynn bersbectif lleoliad ar brosiect Torri'r Blwch Cysylltu a Ffynnu.

**Yr Asiantaeth Cynulleidfa**

Cynhaliodd yr Asiantaeth Cynulleidfa ymchwil ar Hynt. Cefnogodd Hynt Nancy Sherterline yn yr Asiantaeth Cynulleidfa gyda gwybodaeth am ba leoliadau sy'n cymryd rhan, ac mae wedi gwneud cyflwyniadau gyda The Card Network i siarad yn uniongyrchol am y set ddata. Y cam cyntaf o'r gwaith oedd dadansoddi'r set ddata deiliad cerdyn presennol, ond cynlluniodd y tîm datblygu ail gam, yn cynnwys echdynnu a dadansoddi data cynllun Hynt i set ddata Audience Finder.

**Arall**

Mae Cynllun DU gyfan ar y gorwel, gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi rhoi cyllid ACE i wneud cynllun mynediad cenedlaethol yn realiti. Mae'n debygol mai 2023/24 fydd lansiad cynllun cenedlaethol y DU.

Parhaodd Diverse Cymru fel partner Creu Cymru ar Hynt.

Cefnogodd Limegreentangerine Hynt gyda datblygiadau gwe.

# PARTNERIAETH

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddarparu ein gwasanaethau i aelodau:

Inc Arts
Everyday Racism
The Other Box
Community Leisure UK
Federation of Scottish Theatre
Theatres Trust
Theatre and Dance NI
UK Theatre
Audience Access Alliance
Diverse Cymru
CGGC
ABTT
One Dance UK
Cyngor Celfyddydau Cymru

Llywodraeth Cymru
Ffilm Cymru
Musicians Union
house
Deryn
Richard Newton Consulting
Articulture
Tŷ Cerdd
Producers Place
Grŵp Cynghori Digwyddiadau
Llawryddion Celfyddydol Cymru
Bectu
AMA

# Pam bod yn aelod?

Yn ogystal â helpu i drawsnewid y sector celfyddydau perfformio yng Nghymru, mae bod yn aelod yn cynnig:

- Mynediad at sgiliau, gwybodaeth a'r hyder i wella ymarfer ac eiriolaeth yr unigolyn a'r sefydliad.
- Cysylltiadau cryf o fewn rhwydwaith cenedlaethol.
- Mynediad uniongyrchol at raglennwyr a chyfleoedd i raglennu.
- Cefnogaeth gan awdurdod sy'n cael ei barchu a'i werthfawrogi, gyda sylfaen wybodaeth gadarn a gwybodus yn y sector celfyddydau perfformio.
- Y gallu i ddylanwadu ar y dylanwadwyr.

Gallwn gynnig:
Cyfleoedd i Rwydweithio
Cyngor gan ein staff
Hyfforddiant o ansawdd uchel gyda lefel uchel o gymhorthdal ariannol
Ymweliadau 'Mynd a Gweld'
Cynhadledd blynyddol
Mynediad at arbenigwyr
Cydweithio a dysgu ar y cyd
Cyfleoedd i hyrwyddo eich gwaith a swyddi gwag

---

**Cysylltwch**


yvonne@creucymru.com
louise@creucymru.com
megan@creucymru.com

@creucymru

# Geirda

*"Mae cymorth a chefnogaeth Creu Cymru drwy gydol cyfnod COVID wedi bod yn amhrisiadwy gyda grwpiau ffocws, grantiau ac ymweliadau safle".*
*Rhian Dafydd, Rheolwr Busnes a Marchnata, Theatr Felinfach*

*"Creu Cymru puts on some great courses and provides good links which is beneficial to any organisation. Any links to other venues or guidance especially during these times, is much appreciated and their team is fab."*
*Tracey Bishop, Front of House Manager, RWCMD*

*"Mae'n wych bod yn rhan o Creu Cymru a gallu rhwydweithio gydag eraill o fewn y sector celfyddydau Cymru. Mae'r sesiynau hyfforddi a ddarperir bob amser o ansawdd uchel ac ar bynciau perthnasol a chyfoes. Rwy'n argymell yn fawr sefydliadau ac unigolion sy'n rhan o sector celfyddydau Cymru i ymuno a manteisio ar yr adnoddau a'r hyfforddiant sydd ar gael gan Creu Cymru yn ogystal â'i gyfleoedd rhwydweithio gwych".*
*Aled Rees, Gweinyddwr Artistig, Theatr Iolo*

*"I'm really grateful to Creu Cymru for organising such a useful training session, and I really couldn't recommend this particular one highly enough. When resources are so stretched having such a level of legwork done so thoroughly is a massive help".*
*Tasmin Davies, Theatr Mwldan*

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Creu Cymru